## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**HEB 11**

**Y Bil Addysg Uwch (Cymru) – Cyfnod 1**

**Tystiolaeth gan : Swyddogion Perthnasol Awdurdod Addysg Ceredigion**

**YMATEBION i'R CWESTIYNAU COCH**

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol, a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, yn disgrifio prif ddibenion y Bil drwy nodi mai:
"Yng nghyswllt y Bil, prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru yw:
· sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru, y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau a gynorthwyir gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd gadarn a chymesur;

· diogelu'r cyfraniad a wneir at fudd cyhoeddus drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i gefnogi addysg uwch;

· canolbwyntio'n gryf ar sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb yn ddiwahân; a

· chynnal a diogelu annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd prifysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcanion hyn drwy:
· sefydlu fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n gymwys i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr;

· sicrhau nad yw'r rheolaethau rheoleiddio newydd yn dibynnu ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddarparu arian i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny;

· ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg sy'n cael budd o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, o ran benthyciadau neu grantiau ffioedd myfyrwyr, gael statws elusennol;

· ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth myfyrwyr i ymrwymo i weithredu i sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb yn gyfartal; ac

· adeiladu, cyhyd ag y bo'n bosibl, ar y system bresennol o reolaethau a bennwyd gan CCAUC o dan ei delerau ac amodau ariannu."

A oes angen Bil ar gyfer y dibenion hyn? Esboniwch eich ateb.

Mae prifysgolion yn sbardun pwysig i dwf economaidd ac yn allwedd i ffyniant Cymru yn y dyfodol, mae'n bwysig felly eu bod yn cael y cynigion hyn yn iawn, er lles y myfyrwyr.

2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol? Esboniwch eich ateb.

Mae’n hynod bwysig cynnal darpariaeth Addysg Uwch o ansawdd uchel ar draws Cymru (gan gynnwys CAB). Mae'n bwysig felly bod mesurau priodol yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau hyn.

3. A yw adrannau'r Bil, fel y'u drafftiwyd, yn briodol i gyflawni'r amcanion a ddisgrifir uchod? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?

Mae ansawdd y dysgu a'r addysgu yn elfennau pwysig i’w hystyried, mae'n hanfodol felly bod yr un system ar gyfer sicrwydd ansawdd yn cael ei gymhwyso i bob darparwr addysg uwch.

4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?

Mae’r canllawiau newydd yn annog prifysgolion i fanylu ar eu cynlluniau mewn meysydd megis hyfforddi athrawn a ‘phrofiad y myfyrwyr yn gyffredinol’ sydd yn feysydd pwysig i’w hystyried pan yn cynllunio / trafod mesurau perfformiad.

5. Beth yw’r rhwystrau posib i darpariaethau’r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac yw’r Bil yn rhoi ystyriaeth digonol iddynt?

Yn y ddogfen gweler yna gyfeiriad at *‘the proposal that in cases of persistent failure to comply with fee limits that HEFCW should be able to withdraw its approval of an approved plan’.* Dylid bod yna fesurau diogelu yn ei lle i sicrhau nad yw myfyrwyr yn cael eu cosbi am fethiannau rheoli, sydd tu hwnt i’w rheolaeth, h.y. os bod HEFCW yn penderfynu atal y cyllid.

6. A oes gennych farn ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Gweler gyfeiriad at £6,000 fel swm y ffioedd trothwy ar gyfer myfyrwyr llawn amser – ond hyd y gwelwn i nid oes yna lawer o ystyriaeth wedi bod i fyfyrwyr rhan amser/myfyrwyr mynediad (access), gan nad yw’r cyrisau yma yn cael eu hystyried o dan y fframwaith rheoleiddio newydd.